# Ysgol Dyffryn Aeron

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Athro/Athrawes Meithrin Rhan Amser** |
| **Dyddiad Dechrau:** | 05/01/26 |
| **Rheolwr llinell:** | Pennaeth |
| **Yn gyfrifol am:** | Cynorthwywyr Addysgu o fewn y dosbarth |
| **Math o Gytundeb:** | Rhan Amser- Pob prynhawn |
| **Hyd y cytundeb:** | 2 Dymor |
| **Graddfa Cyflog:** | Prif Raddfa Cyflog - £30,742 - £47,340 pro rata |
| **Lefel Datgeliad:** | Uwch |
| **Dyddiad Cau:** | 25/11/25 |
| **Diben y Swydd:** | Ymgymryd â dyletswyddau Athro yn unol â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a deddfwriaeth addysgol gyfredol arall.<br><br>**Dylech fod:-**<br>• yn athro/athrawes dosbarth rhagorol/ ragorol, egnïol, brwdfrydig gyda disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr, yn academaidd ac yn gymdeithasol<br>• yn deall y pwysigrwydd o'r cylch Marcio, Cynllunio ac Addysgu er mwyn sicrhau profiadau gwerthfawr i bob dysgwr<br>• â gwybodaeth gadarn am y Cwricwlwm i Gymru a'r gallu i gymell ac ysbrydoli y dysgwyr<br>• yn barod i chwarae rhan weithredol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, gan gynnwys clybiau a gweithgareddau allgyrsiol<br>• yn cymryd cyfrifoldeb dros Faes/Feysydd Dysgu a Phrofiad y cwricwlwm<br>• â dealltwriaeth gadarn o T.G.Ch. fel offeryn addysgu a dysgu<br>• yn gwbl ymrwymedig i godi safonau mewn dysgu<br>• yn weithiwr proffesiynol hyblyg, trefnus a brwdfrydig iawn<br>• yn medru gweithio a chyfrannu mewn partneriaeth â thîm o gydweithwyr cefnogol<br>• yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhanddeiliaid yr ysgol<br>• yn barod i addasu ac i fod yn hyblyg. |

## Disgrifiad Swydd

**Dyletswyddau a chyfrifoldebau**

**Addysgeg**

- Sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr yn gyson drwy fireinio addysgu i gwrdd â gofynion bob unigolyn
- Sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr trwy hyrwyddo addysgu fel bod dysgwyr yn medru cymhwyso gwybodaeth yn effeithiol
- Sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr trwy ddylanwadu arnynt er mwyn iddynt feithrin ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu

- Sefydlu a chynnal amgylchedd dysgu sy'n hyrwyddo arferion ac ymddygiad dysgu cadarnhaol sy'n bodloni'r pedwar diben ac sy'n galluogi'r dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu a'u meithrin i fod yn ddysgwyr annibynnol
- Defnyddio ystod o dechnegau asesu i fonitro a chofnodi cynnydd disgyblion ac i lywio cynllunio er mwyn diwallu eu anghenion
- Gwneud defnydd effeithiol o wahaniaethu i ddiwallu anghenion pob dysgwr
- Gwneud defnydd effeithiol o ddata i gynhyrchu adborth, cofnodion ac adroddiadau amserol a chywir i hwyluso dealltwriaeth dyfnach o ddysgu a gwella'r profiad dysgu
- Ymgorffori, datblygu ac ymestyn y Pedwar Diben wrth gynllunio, paratoi ac addysgu drwy gynnig profiadau pwrpasol a pherthnasol i'r dysgwyr
- Datblygu dealltwriaeth y rhanddeiliaid o Bedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru er mwyn iddynt fedru cefnogi ein disgyblion hyd eithaf eu gallu
- Defnyddio addysgeg a disgyblaethau perthnasol o fewn ac ar draws cynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad a themâu trawsgwricwlaidd wrth gynllunio a chyflwyno gwersi
- Defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu a phrofiadau dysgu cyfunol
- Ymestyn profiad diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol dysgwyr drwy ddefnyddio cyd-destunau dilys, bywyd go iawn
- Gweithio gyda dysgwyr i olrhain cynnydd mewn dysgu a nodi'r camau nesaf mewn ffordd sy'n cymhwyso dysgu disgybledig ar draws y pedwar diben
- Datblygu a defnyddio themâu trawsgwricwlaidd sy'n berthnasol i'r Meysydd Dysgu a Phrofiad er mwyn meithrin cysylltiadau a galluogi myfyrio effeithiol
- Cyfathrebu a darparu lefelau priodol o her gan osod disgwyliadau uchel ar gyfer yr ystod o alluoedd a nodweddion sydd ymhlith y dysgwyr
- Annog y dysgwyr i ddefnyddio sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol er mwyn datblygu sgiliau newydd.
- Gwrando ac ystyried barn dysgwyr er mwyn eu hannog i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu dysgu
- Hyrwyddo a sicrhau hunan-gymhelliant a hunan-gyfeiriad ymhlith dysgwyr er mwyn iddynt fod yn wydn ac yn hyderus wrth ddatrys problemau a heriau
- Rhoi amser i ddysgwyr fyfyrio a gwerthuso eu dysgu a'u hymddygiad
- Hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng profiadau a chanlyniadau dysgu.

**Cydweithredu**

- Gweithio'n gynhyrchiol gyda'r holl bartneriaid mewn dysgu er mwyn ymestyn effeithiolrwydd proffesiynol
- Mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu ag amrywiaeth o ffynonellau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn cael cyngor a chymorth i wella deilliannau y dysgwyr
- Cydweithio mewn dulliau arloesol i wella profiad dysgwyr
- Cefnogi datblygiad eraill drwy gyfrannu at fentrau ysgol gyfan, cymryd rhan mewn rhaglenni sy'n ymestyn arbenigedd a datblygu perthynas o ansawdd uchel gyda chydweithwyr er mwyn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgwyr
- Gweithredu ar hyfforddiant a chyngor er mwyn sicrhau gwell perfformiad a deilliannau i ddysgwyr.

**Dysgu Proffesiynol**

- Cymryd cyfrifoldeb dros eich datblygiad proffesiynol drwy ymestyn eich gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn barhaus a chroesawu her a chefnogaeth i ddatblygu addysgeg i'r radd uchaf
- Ymgymryd â darllen ehangach i wella dealltwriaeth o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n ymwneud ag asesu, addysgeg, datblygiad plant a glasoed, a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac ymarfer o ddydd i ddydd
- Ymgysylltu a gweithredu o fewn rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol boed ar lefel ysgol, rhanbarthol, cenedlaethol neu rhyngwladol, sy'n canolbwyntio ar bwnc, proses neu gyfnod oedran priodol.

**Arloesi**

- Defnyddio rhagolygon arloesol i ddatblygu technegau a dulliau gweithredu i wella addysgeg a chanlyniadau
- Cefnogi datblygiad eraill drwy fodelu technegau addysgu a defnyddio profiad i gynnig cyngor ac arbenigedd
- Defnyddio barn broffesiynol a dadansoddi beirniadol i ddatblygu technegau newydd a llunio ymarfer i ddatblygu dysgu
- Gwerthuso, dadansoddi a rhannu effaith newidiadau mewn ymarfer.

**Arweinyddiaeth**

- Ymarfer arweinyddiaeth i gefnogi datblygiad proffesiynol eraill ar draws yr ysgol a thu hwnt.
- Dangos ymrwymiad personol a phroffesiynol i egwyddorion tegwch a manteisio i'r eithaf ar botensial pob dysgwr
- Arfer cyfrifoldeb corfforaethol drwy sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â pholisïau ac egwyddorion yr ysgol, gan gynnwys diogelu, iechyd a diogelwch a chydraddoldeb
- Dangos ymrwymiad i arwain dysgu drwy ymgysylltu â phrofiadau cydweithredol yn yr ysgol a chyd-destunau eraill. Defnyddio rhinweddau arferion proffesiynol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar arferion eraill
- Dangos cefnogaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau'r Uwch Dîm Rheoli er mwyn gwreiddio ethos a gweledigaeth yr ysgol.

**Dyletswyddau penodol eraill**

Tra bod pob ymdrech wedi'i wneud i egluro'r prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, efallai na fydd pob tasg unigol yn cael eu nodi

- Bydd disgwyl i weithwyr cydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan reolwr i ymgymryd â gwaith ar lefel debyg nas pennir yn y disgrifiad swydd
- Mae disgwyl i weithwyr fod yn gwrtais tuag at weithwyr eraill a darparu amgylchedd croesawgar i ymwelwyr a phobl sy'n galw dros y ffôn
- Bydd yr ysgol yn ymdrechu i wneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r swydd a'r amgylchedd gwaith i alluogi mynediad i gyfleoedd cyflogaeth i ymgeiswyr anabl
- Mae'r disgrifiad swydd yma yn gyfredol ar hyn o bryd ar y dyddiad a ddangosir, ond drwy ymgynghori â chi, fe ellir ei newid gan y Pennaeth neu, yn ystod trafodaethau adolygiadau Rheoli Perfformiad,

| | |
|---|---|
| gan eich Rheolwr Llinell i adlewyrchu neu i ragweld newidiadau yn y swydd sy'n gymesur â graddfa a theitl y swydd. Bydd angen trafod y disgrifiad swydd yn flynyddol a'i lofnodi | |
| **Atebolrwydd** | Pennaeth a'r Corff Llywodraethol. |

Tra bod pob ymdrech wedi'i wneud i egluro'r prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, efallai na fydd pob tasg unigol a wnaed yn cael eu nodi.

Bydd yn disgwyl i weithwyr cydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan reolwr i ymgymryd â gwaith ar lefel debyg nas pennir yn y disgrifiad swydd.

Mae disgwyl i weithwyr fod yn gwrtais tuag at weithwyr eraill a darparu amgylchedd croesawgar i ymwelwyr a phobl sy'n galw dros y ffôn.

Bydd yr ysgol yn ymdrechu i wneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r swydd a'r amgylchedd gwaith i alluogi mynediad i gyfleoedd cyflogaeth i ymgeiswyr anabl.

| **Llofnod** | | **Dyddiad** | |
|---|---|---|---|

# Ysgol Dyffryn Aeron

## Manyleb Person

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Y cymwysterau academaidd/proffesiynol/ technegol/galwedigaethol (gan gynnwys Lefel y cymwysterau) sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | Athro / Athrawes Cymwysedig<br><br>Cymhwyster / Gradd berthnasol | | | |
| **Lefel y sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd**<br><br>**(Gweler y canllawiau iaith a'r ceri \| net )** | Gweler y tabl isod.<br><br>**Nodyn: **<u>Bydd gofyn</u>** i'r ymgeisydd llwyddiannus ddysgu'r Gymraeg o fewn 2 flynedd o gael ei benodi os nad ydyw eisoes yn siarad Cymraeg* | | | |
| | **Gwrando/ Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** | |
| **Cymraeg (Lefelau Fframwaith ALTE)** | 5 | 5 | 5 | **Hanfodol*** |
| **Saesneg (Lefelau Fframwaith ALTE)** | 5 | 5 | 5 | **Hanfodol** |
| **Sgiliau ymarferol/personol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | Mae'r gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd yma.<br><br>• Bod yn frwdfrydig dros addysg disgyblion a chyfrannu'n llawn i fywyd a gwaith yr ysgol<br>• Ymroi yn llwyr i gynnig y profiadau gorau i ddysgu, lles a diogelwch y disgyblion<br>• Bod yn onest ac yn ddibynadwy gan barchu cyfrinachedd<br>• Bod yn hyderus, gydag agwedd bositif, frwdfrydig<br>• Meddu ar fedrau rhyngbersonol da<br>• Gallu cyd-weithio'n effeithiol mewn tîm<br>• Bod yn ymarferydd ystafell ddosbarth ardderchog<br>• Gallu hyrwyddo ymddygiad da mewn modd cadarnhaol<br>• Ymchwilio i ymarfer gorau<br>• Defnyddio llais y dysgwyr i ddatblygu Addysgu a Dysgu. | | | |
| **Profiad sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | • Addysgu llwyddiannus gan sicrhau profiadau positif i'r dysgwyr<br>• Ymroddiad i godi safonau addysgu a dysgu<br>• Asesu ac olrhain cynnydd gan ddefnyddio'r wybodaeth er mwyn cynnig addysg bersonol a pherthnasol i'r dysgwyr. | | | |
| **Hyfforddiant/addysg y mae'n ofynnol eu cyflawni/mynd ati i'w cyflawni ar gyfer y swydd** | • Cymryd rhan yn rhaglen dysgu proffesiynol yr ysgol.<br>• Ymrwymo'n llawn i gylch rheoli perfformiad er mwyn gosod targedau datblygu'n broffesiynol. | | | |

# Ysgol Dyffryn Aeron

| | |
|---|---|
| **Sgiliau/cymwysterau dymunol** | • Yn meddu ar fedrau Cymhwysedd Digidol cryf iawn er mwyn cynnal profiadau digidol o'r radd uchaf<br>• Arwain ar Faes Dysgu a Phrofiad a/neu chynghorau amrywiol o fewn yr ysgol<br>• Y gallu i rwydweithio gydag ysgolion eraill wrth ddatblygu Cwricwlwm i Gymru<br>• Medru cynnig profiadau allgyrsiol i'r dysgwyr<br>• Ymgysylltu â'r gymuned er mwyn meithrin perthynas bositif gan sicrhau bod yr ysgol yn rhan annatod o'r gymuned. |